# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 5**

Dyddiad: Dydd Mercher, 7 Rhagfyr 2022

Amser: 09.00 - 11.32

Gellir gwylio'r cyfarfod ar [Senedd TV](http://senedd.tv/cy/13287) yn:

http://senedd.tv/cy/13287

# Hybrid

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | John Griffiths AS (Cadeirydd)<br>Mabon ap Gwynfor AS<br>Jayne Bryant AS<br>Joel James AS<br>Sam Rowlands AS<br>Carolyn Thomas AS |
| Tystion: | Julie James AS, Y Gweinidog Newid Hinsawdd<br>Amelia John, Llywodraeth Cymru<br>Sarah Rhodes, Llywodraeth Cymru<br>Emma Williams, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Catherine Hunt (Ail Glerc)<br>Chloe Davies (Dirprwy Glerc)<br>Jonathan Baxter (Ymchwilydd)<br>Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1. Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai.

1.2. Ni chafwyd ymddiheuriadau, dirprwyon na datganiadau o fuddiant.

## 2 Digartrefedd – sesiwn dystiolaeth 5 – y Gweinidog Newid Hinsawdd

2.1. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan:

Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd

Amelia John, Cyfarwyddwr, yr Is-adran Polisi Tai, Llywodraeth Cymru

Sarah Rhodes, Pennaeth Atal Digartrefedd, Llywodraeth Cymru

Emma Williams, Cyfarwyddwr Tai ac Adfywio, Llywodraeth Cymru

2.2. Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidog mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â phwysau'r gaeaf.

2.3. Gofynnodd y Pwyllgor i'r Gweinidog am ragor o wybodaeth ynghylch pam mai dim ond chwe awdurdod lleol sydd wedi cyflwyno Cynlluniau Pontio Ailgartrefu Cyflym i Lywodraeth Cymru.

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod, ac o'r cyfarfod a gaiff ei gynnal ar 14 Rhagfyr 2022

3.1. Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 4 Digartrefedd – trafod y dystiolaeth a ddaeth i law o dan eitem 2 a thrafod y materion allweddol.

4.1. Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law a'r materion allweddol, a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog mewn perthynas â nifer o'r materion a godwyd.

## 5 Trafod yr adroddiad drafft ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio).

5.1. Cytunodd y Pwyllgor ar yr adroddiad.